

Ymgynghoriad cyhoeddus ar Wasanaethau Dwyieithog cyn y broses ddeddfu

Tystiolaeth gan Osian Rhys

Annwyl Rebecca,

Ymgynghoriad ar y Bil Ieithoedd Swyddogol a'r Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog

Dyma air cyflym fel ymateb i'r ymgynghoriad uchod.

Y Bil Ieithoedd Swyddogol

Rwy'n cytuno bod angen diweddarau'r fframwaith gyfreithiol sy'n ymwneud â'r Gymraeg yng ngwaith y Cynulliad yn dilyn Mesur y Gymraeg 2011 yn gynharach eleni. Mae cael trefn ar wahân i drefn y Mesur ar gyfer sefydliadau eraill yng Nghymru yn gwneud synnwyr, fel nad yw cydymffurfiaeth y Cynulliad ag egwyddorion dwyieithrwydd yn fater y byddai'r Llywodraeth yn gyfrifol am ei reoleiddio. Fodd bynnag, mae'r Cynulliad yn gorff hollbwysig o ran ei gyfraniad i statws a defnydd y Gymraeg, ac mae'n hanfodol felly ei fod yn gweithredu'r arfer gorau posibl o ran y Gymraeg.

Rwy'n cytuno gyda'r amcanion o sefydlu'r Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd swyddogol yn y Cynulliad ochr yn ochr â'r ddyletswydd i drin yr ieithoedd hynny ar y sail eu bod yn gyfartal, a bod hynny yn cael ei nodi yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Rwy'n croesawu'r datganiad y gall unrhyw berson ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall wrth gymryd rhan yn nhrefodion y Cynulliad, ond rwyf o'r farn y byddai'n gryfach datganiad pe bai'n nodi yn ddiamwys bod "hawl" gan bobl i ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall.

Rwy'n cytuno y gellir nodi "manylion y modd y dylid cyflawni'r egwyddor o ddwyieithrwydd yn ymarferol" mewn cynllun, ond mae'n bwysig os gwneud hynny bod y cynllun yn gwbl eglur o ran ei amcanion ac o ran yr ymrwymadau mae'n eu gwneud, gan gynnwys cynllun gweithredu yn cynnwys targedau uchelgeisiol i'w cyflawni gam wrth gam dros oes y cynllun. Mae'n hanfodol hefyd bod y Cynulliad yn neilltuo adnoddau staff digonol i weithio ar weithredu'r cynllun hwnnw. Mae cyrff cyhoeddus ledled Cymru yn cyflogi swyddogion iaith i weithio'n llawn amser ar y math hwn o waith, ac mae'n hanfodol bod hynny'n digwydd yn achos y Cynulliad yn ogystal, er mwyn cyflawni'r amcan o fod yn gorff dwyieithog.

Yn ogystal â nodi sut bydd y Cynulliad yn cyflawni egwyddor dwyieithrwydd mewn cynllun, rwy'n credu bod rhai pethau symbolaidd bwysig y dylid eu nodi hefyd yn y Ddeddf ei hun. Rwy'n deall o straeon yn y wasg bod y Cofnod yn mynd i fod yn ddwyieithog unwaith eto, ac rwy'n croesawu hynny'n fawr. Yn fy marn i, mae Cofnod cyfan gwbl ddwyieithog yn un o'r pethau symbolaidd hynny y dylid eu nodi yn yr Atodlen i'r Ddeddf, fel na all Comisiwn y Cynulliad ddehongli Adran 6 yn yr Atodlen er mwyn rhoi diwedd ar gyfieithu'r Cofnod eto yn y dyfodol.

O ran bod yn atebol am weithredu'r cynllun, rwy'n credu bod angen rheoleiddiwr annibynnol i fod yn gyfrifol am fonitro a sicrhau cydymffurfiaeth. Y gobaith, wrth gwrs, yw y bydd y cynllun yn cael ei weithredu'n llawn, a bydd cael cadarnhad o hynny gan rywun nad yw'n Aelod Cynulliad neu'n gweithio i'r Cynulliad yn bwysig i hyder y cyhoedd yn y broses. Bydd hynny hefyd yn golygu y gall swyddogion iaith y Comisiwn ganolbwyntio ar weithredu'r cynllun.

Nid oes gennyf farn gref am y bwloch rhwng adolygu'r cynllun, ond fel corff sydd â chynllun iaith ar hyn o bryd, byddwch yn gwybod bod y gwaith o ddiwygio yn gallu cymryd tipyn mwy o amser na'r disgwyl. Bydd angen sicrhau felly bod y broses o ddiwygio'r cynllun wedi cychwyn ymhell cyn etholiad y Cynulliad, fel bod cyfle i ymgynghori arno ac ati, a'i fod yn derfynol barod erbyn cychwyn y Cynulliad nesaf.

Y Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog

Yn y lle cyntaf rwy'n credu bod angen ailystyried enw'r 'Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog', gan ei fod yn canolbwyntio'n ormodol ar wasanaethau. Dylai'r cynllun fod yn ymwneud â materion eraill hefyd, gan gynnwys bod staff yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Yn y dogfennau ymgynghori gwelir o leiaf un cyfeiriad at 'Cynllun Ieithoedd'. Rwy'n credu y byddai enw eang fel hyn yn fwy priodol.

Mae'r cynllun ei hun yn cynnwys nifer o bethau da, ond mae angen tynhau ar eiriad mewn sawl man, ac mae angen ymrwymadau llawer mwy eglur. Bydd hyn yn gymorth nid yn unig i'r cyhoedd weld yn glir beth yw polisi'r Cynulliad o safbwynt y Gymraeg, bydd hefyd yn gymorth i staff wrth weithredu'r cynllun.

Rhywbeth arall a fydd yn gymorth i weithredu'r cynllun fyddai nodi'r ymrwymadau unigol yn y Cynllun yn fwy amlwg, a byddai'n fuddiol hefyd eu rhifo fel eu bod yn gwbl eglur, bod modd cyfeirio atynt yn unigol a bod modd cadw cyfrif ohonynt. Gan fod gweithredu'r cynllun yn fater o gydymffurfiaeth, mae angen gwneud hynny mor hawdd â phosibl i holl staff y Cynulliad drwy wneud y cynllun yn eglur.

Yn ogystal, er mwyn sicrhau bod gwelliannau yn digwydd dros amser mae'n hollbwysig bod cynllun gweithredu yn rhan o'r cynllun, yn nodi targedau penodol ac uchelgeisiol i'w gweithredu yn ystod oes y cynllun. O baratoi

cynllun gweithredu yn ofalus a chadw ato, gall fod yn arf rhagorol er mwyn newid diwylliant mewnol sefydliad er lles y Gymraeg. Mae hyn eto yn fater na ellir ei wneud yn llwyddiannus heb gael swyddog neu swyddogion iaith penodedig i wneud y gwaith. Byddwn yn tybio y byddai Bwrdd yr Iaith Gymraeg hefyd yn barod i gynghori o ran adeiladu ar ddrafft presennol y cynllun.

Y mater pwysicaf y dylai'r cynllun fynd i'r afael o ddifrif ag ef yw creu gweithle dwyieithog yn y Cynulliad. Mae'r bwriad i baratoi strategaeth sgiliau dwyieithog yn un i'w groesawu, a bydd modd drwy hynny sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant iaith er mwyn gwella eu Cymraeg yn raddol dros gyfnod o amser. Dylai hyn i gyd fod yn rhan o broses rheoli perfformiad a hyfforddiant prif ffrwd aelodau staff. Dylai fod yn nod yn y pen draw bod holl staff y Cynulliad yn ddwyieithog, a bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n helaeth fel iaith fewnol. Bydd y strategaeth sgiliau dwyieithog yn hanfodol er mwyn gwireddu'r amcanion hynny - os caiff hynny ei wneud yn iawn a bod buddsoddiad teilwng yn y gwaith o addysgu Cymraeg, rhoi hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith a gwella sgiliau iaith, gall y Cynulliad fod yn sefydliad lle mae'r Gymraeg yn iaith gwaith yng ngwir ystyr y gair, a gweithlu sylweddol fwy dwyieithog erbyn y pumed Cynulliad a fydd yn gynyddol barod i ddefnyddio'r Gymraeg yn ei holl waith.

Gobeithio bod yr ymateb hwn o fudd. Os gallaf fod o gymorth o gwbl, rhowch wybod. Edrychaf ymlaen at glywed am ganlyniadau'r ymgynghoriad a gweld y datblygiadau nesaf.

Yn gywir,

Osian Rhys